

Cwmni

Papur Sir Caerffili: Cwm Aber, Ebwy, Rhymni a Sirhywi

Rhifyn 216

Pris 80c

Mis Hydref 2019



Merthyr 2019

PWYLLGOR A SWYDDOGION

Cadeirydd: Robert Dutt

Ysgrifennydd Cofnodion: Ann Lewis



Ariennir yn
rhannol gan
Lywodraeth
Cymru

Trysorydd: Eyron Thomas e.thomas119@btinternet.com

Golygydd: Ben Jones benamary2000@yahoo.co.uk 02920 862428 07891916046

Ysgrifennydd: Marian Fairclough faircloughmarian@gmail.com 02920 885151

Cynorthwy-ydd: Jan Penney

Dosbarthu a Golygydd Lluniau: Mary Jones

Y Pwyllgor: Eirlys Thomas, Gareth W. Williams, Dilys Williams,

Ieuenctid: Morgan Roberts, Swyddog Prosiect Llais,

Hysbysebu: Bethan Jones, Menter Iaith

Gweplyfr/ Facebook: Papur



Bro Cwmni

Gwefan: menter.aerffili.cymru/

e-bost: Golygydd@papurecwmni.cymru / benamary2000@yahoo.co.uk

Cedwir yr hawl i gwtogi neu newid erthyglau neu luniau yn unol â gofynion golygyddol.

Argraffu Tower Print, Uned 12a, Ystâd Ddiwydiannol Tŷ Bedwas, Caerffili, CF83 8DW



Cwmni Cwm Ni

yn cyflwyno

Noson Datrys Dirgelwch

Nos Wener, Tachwedd 15^{fed}
£10 yn cynnwys bwffe blasus

Tocynnau drwy cathdduglanffrwd@yahoo.co.uk neu niaparsons@hotmail.co.uk

Oedfaon Capeli Mis Hydref

Bedyddwyr Tonyfelin

6ed 10.30 a 6.00: Parch Milton Jenkins
13eg 10.30: Parch Lona Roberts
20fed Yn Bethel trwy'r dydd
27ain 10.30 a 6.00: Parch Ray Vincent

Penuel, Rhymni

Y Parch T. Jones
Rev. R. Grey
Dr G. Jones
Mr G. Dafydd

Annibynwyr Bethel

6ed 10.30: Parch. Lona Roberts
13eg 10.30: Parch Robert Owen Griffiths (Cymun)
20fed 10.30 a 6.00: Y Parch Milton Jenkins
27aub Yn Nhonyfelin drwy'r dydd.

Capel y Groeswen

13eg Harvest Service
3:00

GWOBR GYNTAF I GAERFFILI

Mae Caerffili yn dathlu ennill y wobwr gyntaf yng nghategori Dinas a Chanol Tref ar gyfer dyfarniadau Cymru yn ei Blodau mewn seremoni a gynhaliwyd yn Ystradgynlais ar y 13eg o Fedi.



Cynrychiolwyd grŵp Cymru yn ei Blodau Caerffili gan y Cynghorydd James Fussell a'r dirprwy Faer Huw Jackson a derbynion nhw'r wobwr gan gyflwynydd gywydd BBC Cymru, Behnaz Akhgar.

Dywedodd y Cynghorydd Huw Jackson. "Rhaid llongyfarch pawb a gymerodd ran yn ymdrech Caerffili eleni. Mae'r dref yn falch ohonyn nhw. Mae sylwadau gan drigolion y dref bob amser yn gadarnhaol am y sioe a gynhelir yng nghanol y dref, ond roedd mannau eraill o'r dref fel Castle View hefyd yn rhan o hyn. "

Dyma'r ail flwyddyn i Gaerffili gystadlu ac mae dod yn gyntaf yn dystiolaeth i waith caled gan nifer o grwpiau o wirfoddolwyr a drefnwyd gan James Fussell.

"Mae'n dipyn o waith i nifer o bobol. Mae'n galonogol iawn gweld y gymuned yn gweithio gyda'i gilydd a chael cydnabyddiaeth ar lefel genedlaethol am eu hymdrechion. Ennill yw'r eisin ar y deisen, wrth gwrs. Rhaid rhoi diolch arbennig i Simon Beacham, un o drigolion y dref ac uwch swyddog parciau Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili; Andy King o Gadw Cymru'n Daclus ac i'r holl gynghorwyr a thrigolion a fu o gymorth yn ystod y flwyddyn. Hefyd mae Cymdeithas Dai Link yn haeddu ein gwerthfawrogiad a Chyngor Tref Caerffili am gefnogaeth ariannol i gychwyn y fenter."

Mae'r grwpiau a gymerodd ran eleni yn cynnwys Cyfeillion Rhandiroedd Morgan Jones, a enillodd yr adran

rhandiroedd, gyda'r dyfarniad "Ffynnu" yn mynd i Grŵp Cymunedol Castle View, Grŵp Trigolion Trevelyan Court a grŵp Gerddi Gwyrddion Eglwys Sant Martin.



Ychwanegodd y Cynghorydd Fussell. "Nawr mae'r gwaith yn dechrau eto ar gyfer 2020 ac os oes unrhyw unigolyn neu fusnes yn dymuno cymryd rhan yn llwyddiant Caerffili yn ei Blodau wnewch chi gysylltu â fi neu Gyngor y Dref."

Huw Jackson

Croeso Elis.....



Pleser yw cyhoeddi genedigaeth Elis Daniel, ail fab i Eleri a James Moremon a phumed ŵyr i Gwilym ac Eirlys Thomas, Ystrad My-nach. Bydd ein darllenwyr yn cofio Eleri, mam Elis, yn ddisgybl yn Ysgol Gymraeg Gilfach Fargod ac Ysgol Gyfun Cwm Rhymni. Gwyd-donydd yw Eleri fel ei brawd Iwan, ac mae hi'n gweithio yn labordai Ysbyty Llandochoau.

Nid yn unig mae Elis yn frawd i Tomos ond hefyd yn gefnder i Daniel, Megan a Sioned, plant Iwan a Catrin. Ac mae'r ddau deulu wedi ymgartrefu erbyn hyn yng Nghaerdydd. Yn wir, mae Eleri a James yn byw yn ardal Y Waun, daflad carreg o'r ysbyty lle ganwyd y ddau fab. A dau fab fydd, mae'n debyg, yn dathlu eu pen-blwydd gyda'i gilydd, oherwydd ganed Elis ar yr 22ain o Orffennaf a Tomos ddwy

flwydd yn gynt ar y 15fed o'r un mis!

Gwers Saesneg oedd hon i mi hefyd, a hynny pan oeddwn yn y chweched dosbarth yn Ysgol Ramadeg Ardwyn, Aberystwyth. Fel rhan o'r cwrs safon A Saesneg roeddem yn astudio rhan o *Paradise Lost*. Mewn un wers arbennig, roedd Mr Chadwick, yr athro, yn sôn am waith Milton fel llenyddiaeth *Mannerism*, hynny yw yn defnyddio themau clasurol ond yn eu newid, neu eu hystumio ryw ychydig. I egluro'r syniad, cyfeiriodd at enghreifftiau o *Mannerism* yng ngwaith arlunwyr megis **Y Fadonna â Gwddf Hir** gan Parmigianio neu hwyrach yr enghraifft enwocaf oll, **Cwmp Icarus** gan Bruegel. Yn y llun hwn, gwelwn Icarus wedi ei gwmp yn suddo i'r môr ond does neb o'i gwmpas yn sylwi arno. Mae llongau yn hwylio heibio yn ddi-daro a ffermwr yn parhau i aredig ar y clogwyn gerllaw. Symudwyd thema clasurol y teitl i gefndir y llun.

Wrth gwrs cawsom weld lluniau o'r campweithiau hyn a llun hefyd o risiau a gynlluniwyd gan Michelangelo, grisiau sy'n arwain at lyfrgell arbennig yn Florence.

Rwy'n cofio mynd adref yn llawn brwdfrydedd ar ddiwedd y diwrnod hwnnw a dweud i ni gael gwers arbennig iawn. Ond mae mwy i'r stori.....

Dros ddeugain mlynedd wedyn roeddwn ar wyliau yn Florence, a thrwy hap a damwain wedi penderfynu troi mewn i weld y Llyfrgell Laurentian. Cerdded i mewn a gweld Y GRISIAU ac roeddwn yn eu hadnabod yn syth. Os buoch yno, mae'n siwr y cytunwch eu bod yn wirioneddol hynod – yn risiau clasurol ond rywsut yn rhoi'r argraff eu bod yn symud ac yn toddi i'w gilydd. Wyddwn i ddim mai yno yr oedden nhw nes i mi eu gweld ac roeddwn i wedi anghofio bron am y wers arbennig ar Milton. Byddwn i wrth fy modd petai cyn-ddisgybl yn cofio un o'm gwersi i 40 mlynedd yn ddiweddarach!



Annwyl Olygydd,

Byddaf yn pori drwy eich papur bro Cwmni o dro i dro a denwyd fy sylw yn ddiweddar gan yr erthyglau ar dafodiaith, **'Wnco Man 'Co**. Diddorol oedd y darllen ond teimlaf yr hoffwn wneud ambell sylw.

Mae pawb yn dueddol o feddwl bod unrhyw eiriau tafodieithol a ddefnyddiwn yn unigryw i'n hardal ni, ond yn aml iawn wrth gwrs nid yw hyn yn wir. Go brin bod awdur yr erthyglau dan sylw yn credu mai dim ond yn ei ardal ef y bydd pobl yn dweud 'diar mi'!

Yn fy marn i amhosibl yw cael tafodiaith mewn ardal lle nad yw'r Gymraeg yn cael ei siarad yn naturiol gan ganran uchel o'r boblogaeth. Yn ne-ddwyrain Cymru, Saesneg yw iaith y mwyafrif a daeth llawer o'r Cymry Cymraeg o ardaloedd eraill a'u tafodiaith felly yn wahanol. Tybed a ydym weithiau yn rhoi gormod o bwyslais ar hiraethu am dafodiaith goll o'r gorffennol?

Gwnaeth hyn i mi feddwl am sgets ar sioe deledu Ryan a Ronnie flynyddoedd maith yn ôl. Roedd yr anfarwol Ryan, a'i dafod yn bendant yn ei foch, yn chwarae rhan hen gymeriad gwledig gogleddol, yn ymhel â thraddodiadau a thafodiaith ei fro. Roedd Ronnie yn ei holi ger llyn ble roedd elyrch yn nofio a Ryan yn dweud pob math o bethau doniol. Ar ddiwedd y sgwrs, fe drodd at Ronnie a dweud:

Wyddoch chi be' fydda Nain yn galw elyrch?'

'Wel na,' meddai Ronnie.

'SWANS! Da 'te?'

Yn gywir,

Gwladus Griffiths

Colli dau Gymro da

Gareth Head, Caerffili



Gyda thristwch mawr yr ydym yn cyhoeddi marwolaeth Gareth Wyn Head, a fu farw yn 51 mlwydd oed. Yn anffodus iawn, cafodd Gareth y diagnosis o Glefyd Niwronau Echddygol (Motor Neurone Disease), a bu farw yng nghwmni ei deulu ar yr 15fed o Orffennaf 2019.

Mynychodd Gareth Ysgol Gymraeg Caerffili, gan barhau wedyn ar lwybr addysg cyfrwng Gymraeg trwy fynychu Ysgol Gyfun Rhydfelen. Yr oedd Gareth yn gweithio fel ymgynghorwr technoleg gwybodaeth, a cyn ei salwch dechreuodd ei gwmni ei hun, yn darparu cyfleusterau rhaglenni ar gyfer busnesau ar draws Cymru. Byddwch yn cofio ei dad, Tom Head, fel darllenwr a chefnogwr brwd y papur Cwmni, a dosbarthodd y papur o ddrws i ddrws am nifer o flynyddoedd. Roedd Tom yn angerddol dros yr iaith Gymraeg, ac y mae'n amlwg bod y brwdfrydedd hwn wedi parhau gyda Gareth a'i deulu.

Gyda chefnogaeth ei wraig, Deborah, a wnaeth ddilyn gwersi Gymraeg gyda Gareth, mynychodd ei blant, Joshua, Ryan a Lowri, ysgolion cyfrwng Cymraeg. Dechreuon nhw yn Ysgol Gymraeg Caerffili, lle'r oedd Gareth yn llywodraethwr am nifer o flynyddoedd, cyn parhau eu haddysg yn Ysgol Gyfun Cwm Rhymni. Roedd Gareth yn hynod o falch o lwyddiannau ei blant, sy'n parhau i ddefnyddio'r iaith Gymraeg hyd heddiw. Mae ei fab hynaf Joshua yn athro Mathemateg cyfrwng Cymraeg, ac mae ei ail fab Ryan yn gweithio fel cyhoeddwr cynorthwyol i gwmni llyfrau Gymraeg. Mae ei ferch Lowri yn awyddus i ddechrau ei gyrfa yn y diwydiant ddrama, ar ôl gofalu am ei thad yn ystod ei flynyddoedd olaf.

Gofynnwyd yn garedig i unrhyw gyfraniadau gael eu hanfon i'r Motor Neurone Disease Association (MND). Mi fydd ei garedigrwydd, ei feddylgarwch, a'i frwdfrydedd at fywyd yn parhau.

Josh Head

Alun Moseley, Rhymni

Tristwch mawr i'r gymuned yn Rhymni oedd clywed am farwolaeth sydyn Alun Moseley, gŵr caredig a hoffus a wnaeth gyfraniad gwerthfawr iawn fel diacon a swyddog ffyddlon dros ben yng nghapel Moreia am flynyddoedd lawer. Roedd Alun yn un o blant Rhymni ac wedi byw yno erioed. Ganed ef yn y stryd gerllaw'r capel ym 1934 ac yno, yn y tŷ drws nesaf i'w gartref cyntaf, y bu farw'n ddrybudd ar y ddeunawfed o Awst eleni.

Cofir amdano fel tad tyner i bedwar o blant. Treuliodd ei yrfa yn gweithio i'r Bwrdd Glo mewn swydd weinyddol yn Ystrad Fawr. Roedd gan Alun lais tenor swynol a bu'n aelod o sawl côr lleol. Byddai'n mynychu cyngherddau corawl yn ddi-ffael ac roedd yn hoff iawn o ganiadaeth y cysegr. Treuliai gryn oriau yn pori yn y llyfr emynau er mwyn dod o hyd i emynau hen a newydd i'w hymarfer gyda'r gynulleidfa fechan ym Moreia. Chwaraewyd ei hoff emyn-dôn, Tyddewi, yn ei angladd.



Bydd pawb o'i gydnabod yn gweld ei eisiau, ac mae'n golled enfawr i'w deulu oedd mor annwyl iddo. Er bod rhai ohonynt ar wasgar – ei frawd, Dewi, ac un o'i feibion, Julian, ill dau yn Awstralia, ac un o'i ferched, Ruth, wedi ymsefydlu yn Lloegr, mae Trystan a'i deulu a Rhian a'i theulu yma yng Nghwm Rhymni, a Bethan ei wyres yn mynychu Ysgol Cwm Rhymni. Cydymdeimlwn yn fawr â nhw ac yn arbennig â Doris, ei weddw.

Dr Sian Rhiannon

Capeli'n CwmNi a Brexit


Mae capeli anferth ac urddasol ein cymoedd yn dystiolaeth amlwg i bwysigrwydd a hyder crefydd yn y dyddiau gynt, ac i gyfoeth ein cymunedau yr adeg honno. Mae cyflwr ein capeli heddiw yn dystiolaeth amlwg hefyd i ddirywiad crefydd dros y ganrif ddiwethaf ac i ddirywiad y Gymraeg yn yr un cyfnod. Cnewyllyn oedrannus sy'n cadw'r drysau'n agored nawr - a rhai sydd yn aml wedi colli eu hiaith, er nid eu ffydd.



Capel y Groeswen

Mae ffyniant addysg Gymraeg yn yr ardal hon yn golygu bod to newydd o frodorion ifanc yn siarad un o ieithoedd hynaf Ewrop, ond wrth i ysgolion Cymraeg agor yn ein bro, cau mae'n capeli. Ac o'u colli, mae perygl y byddwn yn colli rhan allweddol o'n hanes ac agwedd hanfodol o'n Cymreictod.

A ninnau'n byw trwy gyfnod o ansicrwydd cyfansoddiadol, a dadlau ffyrnig dros wleidyddiaeth a gwleidyddion, mae'n werth ystyried hanes ein capeli. Sefydlwyd rhai o'r enwadau ymneilltuol yn yr ail ganrif ar bymtheg, cyfnod tebyg i'n cyfnod ni o ran y bwrlwm cyfansoddiadol, y dadlau a'r ffyrnigrwydd, ond crefydd nid Brexit oedd yn rhannu teuluoedd a gwahanu ffrindiau.



Pulpud a'r canhwylbrennau yng nghapel y Watford

Yr Eglwys Anglicanaidd oedd yr unig enwad swyddogol, a theimlai'r awdurdodau ei bod hi dan fygythiad o ddau gyferiad tra gwahanol: yr Eglwys Babyddol ar un llaw a'r Piwritaniaid ar y llaw arall. Yn 1660 derbyniodd Siarl II wahoddiad y Senedd i gymryd y goron. Mewn ymgais i ddiogelu heddwch simsan y wlad

wedyn, pasiwyd deddf i orfodi pawb i fynychu gwasanaethau'r Eglwys Anglicanaidd yn rheolaidd. Rhaid oedd i Babyddion a Phiwritaniaid fel ei gilydd

Rhodddwyd yr enw "Anghydfurfwyr" ar y Piwritaniaid hynny a wrthodai gydymffurfio gydag arferion yr eglwys wladol. Byddent yn cwrdd yng nghartrefi ei gilydd, ffermydd a thyddynod anghysbell, megis Ysgwyddgwyn ger Deri, Llanfabon a Blaen Rhymni. Nid pobl dlawd yn unig oedd yn mentro'r cyfan dros eu ffydd, ond aelodau teuluoedd bonedd yr ardal, megis y Cynol Pritchard, sgweiar Llancaeath Fawr.

Mae hanes rhai o'n capeli yn dyddio'n ôl i'r cyfnod hwn – dyma gyfnod sefydlu enwadau fel yr Annibynnwyr a'r Bedyddwyr. Ac mae gan ddau o gapeli'n cwm ni gysylltiad pwysig gydag enwad arall, un mwy diweddar ond yr unig un â'i gwreiddiau'n ddwfn yn nhir Cymru ei hun. Yn 1743 daeth nifer o ddynion ifanc i gyfarfod ym Mhlas Watford, Caerffili, cartref haearn-feistr ac anghydfurfiwr o'r enw Thomas Price.

Addolai ef yng nghapel Watford gerllaw, capel a sefydlwyd ym 1662. Ond gwyddai am y gynnwrf crefyddol a achoswyd yng Nghymru gan bregethu grymus arweinwyr mudiad crefyddol newydd – y Methodistiaid. Felly yn Ionawr 1743 gwahododd Howell Harris, William Williams a Daniel Rowland i Gaerffili, i gwrdd â George Whitefield, un o arweinwyr Methodistiaid Lloegr, ond un oedd yn anghytuno gyda diwynyddiaeth yr arweinwyr eraill.



Y lle tân yng nghapel Watford

Yn y cyfarfodydd a gynhaliwyd yn Watford ac yng nghapel Groeswen ryw dair milltir y ffwrdd

daeth y Cymry i gydsynio â diwynyddiaeth Whitefield. Yn dilyn Seiat Watford sefydlwyd credoau'r Methodistiaid Calfinaidd, sef Eglwys Bresbyteraidd Cymru heddiw. Dyma'r enwad anghydfurfiol mwyaf yng Nghymru ar un adeg, er heddiw mae'r enwad, fel ei gapeli, yn crebachu ac yn dirywio.

Ac eto – mae dylanwad y capel i'w ganfod yng Nghymru o hyd: "hymns and arias" a genir yn ein stadiwm cenedlaethol, a phan mae aelodau Seneddol Cymru am herio awdurdod y llywodraeth – wel, dim ond "Calon Lân" wnaiff y tro i fynegi eu teimladau!

Ydych chi'n gallu dod o hyd i'r DEG gwahaniaeth rhwng y ddau lun?



R H Y M A C H E N W S C H
Y C H A D A R B N A L
M A G E N D E R W I
H E N G O M G O D D
C A E R F I L I E E
W S P D L L A N B O
O G E F A H I L E G
B R A W I N M Y R H N
I C H A F C A E R F E
M Y B A R G O E D H

Mae enw 11 o drefi neu bentrefi Cwm Rhymni Allwch chi ddod o hyd iddyn nhw?

RHYMNI BEDWAS MACHEN

LLANBRADACH HENGOED PENGAM

BARGOED DERI GELLIHAF

CAERFFILI GILFACH

Mae'r atebion ar waelod tudalen 19

Clwb Cerdd Cwm Rhymni

Hydref 19eg Cerddorfa Siambr Gwent*

Mawrth 21ain Virtuoso Piano:
Anna Vienna Ho*

Tachwedd 23ain Deuawd Fiolin a Gitâr**

Ebrill 18fed Beethoven yng Nghymru –Rhan 2*

Ionawr 25ain Ensemble Llinynnol De Cymru**

Mai 16eg Pumawd Pres Cerddoriaeth i Chi **

Chwefror 15fed Piano a Lleisiau
Nicola Rose & Ffrindiau **

Mannau Cyfarfod: *Ysgol Lewis i Ferched
** Canolfan Gristnogol Siloh

Perfformiadau yn dechrau am 2.30

Lluniaeth yn ystod yr egwyl

www.rhymneyvalleymusicclub.org.uk

Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd

Da oedd gweld a theimlo bwrlwm Pentref Gwyddoniaeth a Thechnoleg yn y Genedlaethol. Yn ogystal â nifer o weithgareddau rhyngweithiol bu'r Sioe Wyddoniaeth Wych ddyddiol, Experimentrics a'r sesiynau yn y Planetariwm yn denu niferoedd.

Cafwyd safon uchel iawn yn y darlithoedd ar y Maes yn Cymdeithasau 2. Cefais gyfle i fod yn bresennol mewn tair ohonynt: Deri Tomos - Dŵr a Strwythurau Bywyd; Eleri Pryse – Ar Ymyl Y Gofod; Arwyn Tomos Jones – Siwrne Faith i Ganol y Gell, o Gynffon Penbwl i Galon Canser. Yn y drydedd, yn dilyn cyflwyniad meistraidd ar natur cell a'r broses apoptosis, soniodd Arwyn yn agored a dewr iawn am ei daith bersonol o ymateb i ddiagnosis yn 2012 o ganser ei ymennydd, yn benodol y profiad rhyfeddol o fedru syllu, gyda chyd-weithrediad ei feddygon, trwy feicrosgop ar ddarn o'i ymennydd ei hun. Derbyniodd gymeradwyaeth wresog iawn.

Cafwyd sesiwn ddifyr Ddydd Mawrth pan heriwyd pedwar gwyddonydd i ymateb i'r cwestiwn: Beth yw'r datblygiad gwyddonol pwysicaf yn y ganrif ddiwethaf? Y pedwar dewis oedd: 1. Y chwyldro mewn meddygaeth, dan ddylanwad Archie Cochrane, o seilio triniaeth ar dystiolaeth data; 2. Y transistor; 3. Y Wê; 4. Darganfod twll yn yr haenen osôn. Cadeiriwyd y sesiwn gan Deri Tomos yn ei arddull egniol arferol. Cyn i'r pedwar lladmerydd siarad, gofynnwyd i'r gynulleidfa fwrw pleidlais. Yn dilyn y cyflwyniadau pleidleisiwyd eto, gan ddangos ychydig o newid a'r mwyafrif yn newid meddwl ac ochri gyda'r twll yn yr haenen Osôn. Oes neges yma?

Gwobrwywyd dau draethawd gwyddonol, (a) defnyddio bôn-gelloedd i drin Clefyd Huntington a Chlefyd Parkinson, (b) Y Frân: Athrylith neu hen dderyn castiog. Darllen difyr.

Dr Neville Evans

Clwb Llyfrau “Cwmni”

Sesiwn agored oedd cyfarfod agoriadol Clwb Darllen “Cwmni” mis Medi a'r thema a ddatblygodd yn gwbl fyrfyr oedd siopau llyfrau ail law. Cytunwyd bod y siopau hyn yn drysorau gwirioneddol a'u bod yn llawn posibiliadau dirgel.

Darganfu un aelod y nofel “Catrin o Ferain” a chymaint oedd ei fwynhad fel yr aeth ati i archebu'r ddwy nofel arall yn yr un gyfres gan R. Cyril Hughes, “Dinas Ddihenydd” a “Castell Cyfaddawd”. Mae'r llyfrau'n sôn am bedair priodas y ferch a alwyd yn fenyw harddaf Cymru. Ond yn ogystal â'r stori llawn digwyddiadau cafwyd bod y llyfrau'n llawn o hanes Cymru a Lloegr yn ystod oes Elisabeth y Cyntaf. Teimlai'r darllenwr fod yn ddigon tebyg, er nad cystal, â'r gyfrol “Sgythia”, nofel a oedd wedi plesio'r clwb yn fawr iawn.

Yn anffodus roedd darllen y tair nofel hyn yn i gwneud i nofelau ysgafnach ymddangos yn ddisylwedd er cymaint yr oedd y darllenwr wedi mwynhau nofel ddiweddaraf John Alwyn Griffiths, “Dan Bwysedd”.

Llai ffodus fu aelod arall wrth iddi ddewis cyfrol Cefin Roberts, “Cymer y Seren”, llyfr y methodd a'i gwblhau am fod y plot yn gwyro o un man i'r llall heb ei weld yn dod at unrhyw benllanw ystyriol.

Bu un arall yn darllen “Ynys Fadog” gan Jerry Hunter a dywedodd, “Joies i fe i ddechre ond dantes i braidd gyda'r Rhyfel Cartref diddiwedd. Fodd bynnag fe af fi nôl ato fe eto sbo gan bo fi wedi cyrraedd diwedd y rhyfel. Rhaid gweud mod i'n colli gafael ar rai o'r cymeriadau wrth weithio'n ffordd o'r naill genhedlaeth o ymfudwyr i'r llall ond roedd dod i ddeall hanes yr Amerig drwy brofiad y Cymry yn ddiddorol.”


Roedd aelod arall wedi dod ar draws ‘Tlysau Ynys Prydain’ gan H. Brython Hughes ... ‘Cipdrem i Oes Arwraidd y Cymry’, llyfr a gyhoeddwyd yn 1902 gan Hughes a'i Fab (Gwrecsam). Diddorol a difyr oedd disgyn i fyd rhamant Cleddyf Rhydderch Hael, Mwys Gwyddno Garanhir, a'r un ar ddeg o drysorau eraill.

Dod ar draws dwy nofel eithaf diweddar yn y llyfrgell oedd profiad aelod arall. “Y Groes Naid” gan Lyn Jones a Mel Hopkins sy'n fath o lyfr De Vinci Code a oedd wedi rhoi tipyn o fwynhad. Yna roedd “Hen Blant Bach” Gwen Parrot a ddisgrifiwyd fel dirgelwch anarferol oedd yn werth ei ddarllen.

Gwelwch fod tipyn o hwyl a thrafod yn y Clwb. Dewch atom Hydref 7fed i drafod “Llyfr Glas Nebo” Manon Steffan Ros. Mae copïau bob amser ar gael yn Llyfrgell Caerffili.

“AGOR CLORIAU”

Hunangofiant cyn-gyfarwyddwr Addysg a Phrif Weithredwr Cyngor Sir Dyfed, John Phillips oedd y gyfrol dan sylw yng nghyfarfod olaf y clwb darllen cyn gwyliau'r haf eleni.



Mae hunangofiannau fel arfer o ddiddordeb i ddarllenwyr sy'n huanu o'r un ardal â'r awdur ac o bosib yn ei adnabod neu'n cymryd diddordeb yn ei waith. Credaf fod rhai o aelodau'r grŵp yn perthyn i'r categori hwn. Yr hyn a'm hysgogodd i ddarllen y gyfrol oedd y ffaith fy mod wedi treulio ychydig flynyddoedd yn Nyfed yn ystod yr 80au. Rhaid dweud mai prin oedd fy ymwybyddiaeth o'r byd addysg a'r cyfnodau cythryblus o ran sefyllfa'r Gymraeg yn y sir bryd hynny a doeddwn i ddim yn siŵr a fuaswn yn mwynhau'r gyfrol hon. Rwy'n falch o ddweud na chefais fy siomi.

Rwy'n credu ei bod yn deg i ddweud bod y rhan fwyaf a ddaeth ynghyd y prynhawn hwnnw ym mis Gorffennaf wedi cael blas arni hefyd.

Cawn hanes magwraeth John Phillips mewn cymdeithas lofaol Gymreig, ei amser fel myfyriwr yn Aberystwyth, ei gyfnod yn y fyddin, a'i brofiadau fel athro yn Llundain cyn iddo ddychwelyd i Gymru a mynd ymlaen i fod yn Gyfarwyddwr Addysg ac yna yn Brif Weithredwr Dyfed. Dydw i ddim yn meddwl bod angen i mi ddatgelu llawer mwy gan fod disgrifiad digonol i'w gael ar wefan

www.gwales.com www.gwales.com.

Dyma gyfrol hawdd i'w darllen mewn arddull glir gyda'r brawddegau'n llifo. Cawn ddarlun cynhwysfawr o hanes ardal ei fagwraeth a'i hynafiaid, efallai ychydig yn ormodol i mi'n bersonol, ond roedd ambell hanesyn yn ddiddorol ac yn annisgwyl. Caiff arferion y 40au eu cofnodi'n glir ac yn gryno ac fe gawn olwg ar fywyd cymdeithasol y cyfnod.

Wedi hynny, cawn atgofion yr awdur wedi iddo ef a'i wraig ddychwelyd i Gymru ar ôl bod yn dysgu yn Llundain, fel y bu iddo gael ei benodi'n swyddog addysg yn y de-ddwyrain. Yna, aeth i Aberystwyth fel Dirprwy Gyfarwyddwr Addysg ac yn ddiweddarach yn Gyfarwyddwr Addysg Sir Aberteifi. Fel y gwyddom, daeth yn Gyfarwyddwr Addysg Dyfed ac yn ddiweddarach yn Brif Weithredwr y sir honno. Cawn wybod am yr anawsterau a wynebai a'r dadlau ffyrnig a fu o g anlyniad i lunio polisiau i sicrhau dyfodol i'r iaith Gymraeg yn dilyn lleihad yn nifer y plant a oedd yn siarad Cymraeg a'r mewnlifiad i gefn gwlad.

Prin yw'r dyddiadau a nodir o'r dechrau i'r diwedd ond nid yw hyn o bwys mawr i'r darllenydd. Teimlir fod y bwrlwm yn cynyddu a'r cyffro yn dwysáu wrth droi'r tudalennau. Fel y gwelwn yn y rhan fwyaf o hunangofiannau, mae yma nifer o ffotograffau o wahanol gyfnodau. Mae'r cyfan wedi'i gofnodi'n ofalus mewn penodau gyda theitlau addas. Nid yw'r penodau'n hir. Cawn bytiau bach annisgwyl, er enghraifft y cyfeiriad at yr hipis a ymsefydlodd yn Sir Gâr. Diddorol hefyd oedd cael gwybod am darddiad yr enw Penweddig a roddwyd ar yr ysgol newydd yn Aberystwyth, ac ni ddylid anghofio am sefydlu Theatr Felin-fach.

Mae'r awdur yn canolbwyntio ar ei fywyd teuluol tua'r diwedd ac fe gawn beth o'u hanes yn y bennod 'Y Melys a'r Chwerw'. Hyn eto wedi'i gofnodi'n drefnus ac yn parhau i gynnal diddordeb y darllenydd.

Yna fe gawn ein harwain at y bennod olaf sy'n nodi ei wasanaeth a'i gyfraniad neilltuol i nifer o gyrff a sefydliadau wedi iddo ymddeol. Daw â'r hunangofiant i ben gyda'i englyn 'Henaint'.

Anaml iawn y byddaf yn ailddarllen llyfr ond mae'n rhaid i mi gyfaddef fy mod wedi elwa o gymryd golwg pellach ar y gyfrol hon heb deimlo unrhyw syrffed. Rwy'n hapus iawn i'w chymeradwyo. Mae cyfoeth rhwng y cloriau!

Marian Fairclough

Yn gynta, llawer o ddiolch i Gwladus Griffiths am yrru llythyr atom am y gyfreso hon o erthyglau. Prin fyddwn yn derbyn adwaith yn y papur ond croesawn eich sylwadau bob amser. Gweler llythyr Ms Griffiths ar dudalen 4

Doedd hi ddim yn fwriad gen i ysgrifennu trydedd erthygl am dafodiaith yr ardal rhwng Cwm Tawe a Dyffryn Aman, lle'm magwyd. Ond wrth ddod o hyd eto i un o ddramâu Eic Davies fe'm hatgoffwyd o fwy o eiriau a dywediadau sy'n debygol o fynd ar goll os na wnawn ni eu cofnodi.

Y ddrama dan sylw yw "Dim Ond 'I Fod E", sef ffordd o ddweud fod rhywun ar fin marw h.y. wedi mynd heibio'r cyfnod o fod "yn gomon". ("Comon" hefyd yn gallu cyfeirio at rywun israddol.) Ond os oedd rhywun yn wael iawn ac ar fin marw roedd hi'n arferiad i aelodau o'r teulu agos eistedd gydag e yn eu tro rhag iddo farw ar ei ben ei hun. Y gair am wneud hyn oedd "gwyled" ("gwylied, efallai?). A ffordd o ddisgrifio person yn ei henaint oedd naill ai ei fod "wedi torri" neu fod ei gam wedi byrhau a'i gefn yn crymu.

Ambell beth arall a gododd yn y ddrama oedd dweud fod rhywun hael "yn biwr". Ac os oedd rhywun yn gwbl gywir ei fod yn "reit i wala". Gadael rhywbeth i syrthio byddai "sarnu". A beth oedd y gair am rywun mawr lletchwith ond "lwath", ffurf ar a "lout" yn Saesneg? Term hoffus am ferch ifanc oedd "sgenes". Ac os oedd rhywbeth yn tshep neu heb ei wneud yn iawn, y gair oedd, "shimpil".

Os nad oedd digon o lo ar y tân galwyd e'n "dân gwidw" pan fydddech chi'n ei "clywed" hi'n oer. Byddai'r sawl nad oedden nhw'n gweithio yn y lofa'n talu'n ddrud am eu glo ac roedd yn arferiad cymysgu'r glo mân gyda chlai i wneud "pele" i'w gosod ar y tân pan fyddai hwnnw wedi cydio'n iawn. Roedd person mawr iawn neu gnepyn mawr o gaws yn gallu bod yn "gwllffyn" a chlywais bobol ddi-Gymraeg y Rhondda'n dweud am rywun mawr, "he's a cwlff".



A gadael y ddrama am funud, beth yw'r gair Cymraeg am "darning"? Byddai mam yn "cwiro" tyllau mewn sanau gyda gwlân. "Cyweirio" yw'r gair mae Bruce yn cynnig felly am y gair Saesneg "darning".

Hwyrach mai "Henach, henach; ffolach, ffolach" sy'n cyfateb â'r dywediad Saesneg, nad oes "ffwl tebyg i hen ffwl".

Beth am rywun oedd, efallai, ddim cweit yn 'neud y pwyse, neu heb fod wedi cael mynd i ben bella'r ffwrn? Byddai rhywun felly yn rhuthro o gwmpas yn ddigyfeiriad fel "inishent". A rhywun annwyl a diniwed yn "ffel". Da oedd cael ymateb i'r erthyglau yma gan Elin Owen, un oedd, fel Eic Davies, o'r Waun. Atgoffodd hi fi o'r dywediad am rywun oedd "ddim cweit llathen" - ei fod wedi bod "Mewn gyda'r torthe a ma's gyda'r pice".

Ond gwahanol iawn oedd rhywun "twp". Roedd gan y glowyr ddywediad am rywun fyddai'n ceisio gwella'i hunan drwy astudio, efallai, ond eto heb lawer o synnwyr cyffredin gan ddweud fod rhywun felly yn "dalentog o dwp". Petawn i'n dangos diffyg synnwyr cyffredin byddai mam yn fy annog i "ddefnyddio tamed bach o beth sy ddim gyda ti" – tipyn o her! Yna, am un arall ei fod "yn rhy dwp i weld bo fe'n dwp."

Ffugenw Jim Parc Nest pan enillodd e'r Gadair yn Llanrwst eleni oedd, "Wil Pabwr". Ceir pabwr (pabwyr) mewn lamp olew, y "wick" yn Saesneg. Arferir dweud am rywun yn chwysu'n drwm ei fod "yn chwys babwr". Byddai troi'r pabwr lan mewn lamp yn rhoi mwy o olau ac felly petai galw am i rywun symud neu yrru yn gyflymach, yn enwedig i sbarduno car, dywedwyd wrtho am "roi mwy o babwr iddi".



Yr ateb parod i rywun yn synnu fod yr wythnos yn mynd yn ei blaen yn rhy gyflym ac yn ebychu, "Odi hi'n ddydd Iau, 'te", fyddai, "Odi, drw'r dydd - ac yn Llandeilo." Pam Llandeilo? Yn yr ardal hon cafwyd y dywediad, "Rhwng pobol Pentyrch a'i gilydd." Pam Pentyrch?

Ers i'r arian degol ddod i mewn ddechrau saithdegau'r ganrif o'r blaen collwyd nifer o dermau lliwgar fel hanner coron (12½c); grot (groat yn Saesneg) am bedair ceiniog; chweugain oedd deg swllt (50c) oherwydd roedd 240 ceiniog yn yr hen bunt a hanner punt felly oedd 120 ceiniog neu chwe x ugain= chweugain. Galwai'r hen bobol y bunt yn sofren ("sovereign"). "Arian gleision" oedd darnau lliw arian,

Er yr holl eiriau anghyfarwydd mae dramâu Eic yn dal i fod yn werth eu darllen. A'r tâl am chwarae'r ddrama hon os penderfynwn ni wneud hynny fydd 10/6 neu hanner gini neu i blant yr oes sydd ohoni 52½ ceiniog.

Dyfodol Canolfan Siloh, Ystrad Mynach



Capel Siloh, Ystrad Mynach

Pan gaeodd Capel Siloh, roedd cryn bryder yn y gymuned dros ddyfodol yr adeilad. Cynhaliodd yr Eglwys Bresbyteraidd, perchnogion y capel, gyfarfod cyhoeddus i drafod y ffordd ymlaen. Y bwriad oedd i weld a oedd cefnogaeth i weledigaeth yr enwad y gallai'r hen gapel ddatblygu'n ganolfan gymunedol Gristnogol a Chymreig.


Roedd cefnogaeth frwd i'r fenter, ac aeth yr enwad ati i fuddsoddi'n hael er gwella cyflwr yr adeilad a'i foderneiddio ar gyfer ei rôl newydd yn y ganrif newydd. Penderfynodd yr enwad hefyd fuddsoddi adnoddau dynol yn ogystal â rhai ariannol yn Siloh. Penodwyd person i weithio yn y gymuned, i redeg y ganolfan a thystiolaethu i neges cariad Duw.

Dros y blynyddoedd daeth cyfres o bobl ifanc, egnïol, i weithio yn Siloh, a datblygodd y ganolfan yn rhan ganolog o fywyd y gymuned. Cynhelir gwasanaethau cyd-enwadol yno a grwpiau astudiaethau Beiblaidd. Ond yno hefyd mae grwpiau *Slimming World* yn cwrdd, yn ogystal â grwpiau crefft amrywiol a dysgwyr brwd Sadyrnau Siarad y Fenter Iaith. Mae clwb cerdd y cwm yn hoffi'r acwstig yno, a Siôn Corn yn galw heibio'n flynyddol. Mae ystafelloedd yno ar gyfer cyfarfodydd mudiadau fel Cruse, sy'n cysuro'r rhai sy'n galaru, a neuadd fawr gyda'r lle a'r offer angenrheidiol ar gyfer holl hwyl y plantos bach mewn grwpiau *Ti a Fi*. Heddiw mae'r ardd o flaen y ganolfan wedi ei datblygu'n lle chwarae i'r rhai bach, a'r plant eu hun sydd wedi dewis y ffrwythau sy'n tyfu yno.

Ond edwino mae'r enwad, a'i goffrau'n gwacáu. Penderfynwyd na ellid fforddio parhau i gyflogi gweithwyr yn Siloh, a diswyddwyd yr olaf ohonynt, Tamsin Llwyd Graves, fis Mehefin diwethaf. Teimlodd y gymuned y golled i'r byw. Roedd Tamsin wedi ymroi i Siloh ac i gymuned Ystrad Mynach, ac wedi dod yn rhan o fywyd crefyddol ac addysgiadol y pentref. Mae'n dal ar fwrdd llywodraethol Ysgol Bro Allta, ysgol gynradd Gymraeg Ystrad Mynach, felly mae'n dal mewn cysylltiad â ni yn Ystrad Mynach.

Yn dilyn colli'r gweithiwr, rhaid oedd wrth gyfarfod cyhoeddus arall i drafod dyfodol Siloh unwaith eto. Daeth nifer dda at ei gilydd nos Fawrth, Medi'r 10fed, i rannu syniadau a thrafod posibiliadau. Roedd cynrychiolwyr yno o'r gwahanol fudiadau sy'n defnyddio Siloh'n rheolaidd ac o'r eglwysi lleol a'r Fenter Iaith, hefyd cynghorwyr lleol, rhieni'r plant fu'n mwynhau'r gweithgareddau *Ti a Fi* a rhai o drigolion y pentref. Mynegwyd gwerthfawrogiad o fuddsoddiad yr enwad yn Siloh dros y blynyddoedd ac o waith y gweithwyr yno. Cafwyd teyrngedau hyfryd i waith Tamsin, yn enwedig gyda'r plant bach.

Roedd yn amlwg bod pawb oedd yno am weld Siloh'n parhau i chwarae rhan allweddol ym mywyd y gymuned, a chynigiodd sawl un gynorthwyo gyda'r gwaith o redeg y ganolfan yn y dyfodol.



Cynigiodd swyddogion yr eglwys fynd â'r sylwadau a'r cynigion yn ôl i bwyllgor gwaith yr enwad, a chytunwyd i gynnal cyfarfod cyhoeddus arall ar Hydref yr 8fed i drafod ymateb y pwyllgor, a dechrau cynllunio at y dyfodol eto. A bydd croeso mawr i bawb sydd â diddordeb yn nyfodol Siloh!

Gwobr Diogelwch Ffyrdd Cymru yn mynd i Bennaeth Lleol



O'r chwith i'r dde: Y Cyngorydd James Fussell (Cadeirydd y Llywodraethwyr), Lynn Griffiths (Pennaeth) a Susan Davies (Swyddog Prosiect Diogelwch y Ffordd)

Gwobrwywyd Mr Lynn Griffiths, Pennaeth Ysgol Gynradd Gymraeg Caerffili gyda'r wobwr Diogelwch Ffyrdd Cymru. Ysgol Gynradd Gymraeg Caerffili oedd yr ysgol gyntaf yn yr ardal i lansio'r fenter bws cerdded, wedi'i sefydlu gyda'r bwriad o leihau'r swm o draffig a gynhyrchir gan hebrwng plant i'r ysgol yn ddyddiol.

Nawr, 15 mlynedd yn ddiweddarach, mae'r bws cerdded yn fwy cryf nag erioed gyda thros 20 disgybl yn cymryd rhan bob bore Gwener. Mae'r bws cerdded nid yn unig yn lleihau traffig ond mae'n arwain at ostyngiad mewn problemau amgylcheddol drwy leihau'r nifer o geir ar yr heol yn ystod adegau prysur a hefyd yn gwella iechyd a lles y disgyblion.

Dywedodd y Cyng. Sean Morgan, Aelod Cabinet dros Isadeiledd, "Llongyfarchiadau i Lynn Griffiths

ar ei lwyddiant. Mae ei ymroddiad a'i frwdfrydedd dros y bws cerdded wir yn gymeradwy. Rwy'n falch bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn parhau i gefnogi datblygu a gweithredu nifer o fysiau cerdded ledled y fwrdeistref sirol."

Meddai Mr Lynn Griffiths, y Pennaeth, "Mae'n anrhydedd i'r ysgol gael derbyn y wobwr urddasol hon. Trwy fod yn Eco-Ysgol Platinwm Ardystiedig ers 2015, rydyn ni wastad wedi cael ffocws clir ar bwysigrwydd cynaliadwyedd a'r angen i gefnogi ein disgyblion a chymuned ysgol i gerdded, beicio neu fynd ar sgwter.

"Tr perwyl hwn, rydym wedi sefydlu bws cerdded hynod o effeithiol sydd wedi bodoli am 15 mlynedd ac

Cwyno a Diolch

A ydym weithiau yn rhy barod i gwyno am wasanaeth ac, efallai, yn llai parod i ddweud diolch? Dim ond cyfeiriad e-bost ar gyfer cwyno sydd gan ein Cyngor Bwrdeistref Sirol sef cwyno@caerffili.gov.uk. Ond wedi gyrru gair o ddiolch un noson cafwyd ateb amser cinio drannoeth - y neges Gymraeg wedi'i chyfieithu ac felly, hefyd, yr ymateb.

Nos Iau, am 19.23 o'r gloch

Annwyl Swyddogion,

Dydw i ddim am gwyno ond, yn hytrach, rhoi clod a diolch. Er na welaf safle ar gyfer dweud diolch ar eich gwefan.

Ddoe casglwyd fy ngwastraff gardd a bwyd. Roedd llawer iawn i'w gasglu gan fy mod wedi llenwi chwe sach ac un bocs o wastraff gardd yn ogystal â'r bin gwastraff bwyd.

Roeddwn i ffwrdd am y diwrnod ond pan ddychwelais roeddwn WRTH FY MODD. Roedd y chwe sach wag wedi'u plygu a'u gosod yn daclus yn y bocs. Ar eu pen roedd y bin bwyd gwag i gadw'r bagiau rhag chwythu i ffwrdd.

Dydw i ddim yn gwybod pwy oedd y tîm ond dylid fod yn bosib olrhain pwy bynnag fu'n gwacáu biniau yn CF83 2AJ yr wythnos hon. Byddech chi felly mor garedig â chyfleu fy niolch i'r tîm casglu. Diolch yn fawr,

Amser Cinio, Dranoeth @ 14.49

Annwyl Mr Jones,

Diolch am eich canmoliaeth diweddar a dderbyniwyd gan y swyddfa yma'r bore yma.

Byddaf yn sicrhau fod y geiriau caredig hyn yn cael eu rhannu gyda'r swyddogion perthnasol.

Cofion cynnes

Leigh

Hwyl Y Gelli

Cyn y gwyliau Haf, mwynhaodd plant Ysgol Gymraeg Caerffili drip i Wyl Lenyddol y Gelli. Cyfle gwyh i gwrdd ag awduron, gwrando ar seminarau diddorol a phrynu llyfrau wedi'u harwyddo gan yr awduron.



Harry Hill

Un o uchelbwyntiau'r dydd oedd y digrifwr Harry Hill yn diddanu plant blwyddyn 6 ac yn darllen o'i lyfr **Matt Milz**.



Ade Adeptian

Pleser o'r mwyaf oedd cwrdd â Pudsey, arth enwog Plant Mewn Angen oedd yn ymweld â Gŵyl Y Gelli er mwyn diolch i'r awdur Ade Adeptian am roi elw ei lyfr mwyaf diweddar, **Cyborg Cat** at achos mor dda.



Abi Elphinstone

Wrth edrych yn ôl ar ymweliad arbennig hoffai disgyblion Ysgol Gymraeg Caerffili a ffrindiau o ysgolion Woodlands a Clytha argymhell y llyfrau canlynol;
Abi Elphinstone - **Sky Song**
Caroline Lawrence - **The Time Travel Diaries**.

Cwis Llyfrau

Bu dathlu mawr yn Ysgol Gymraeg Caerffili haf yma wrth gefnogi dau dîm yn cystadlu yn rownd genedlaethol y gystadleuaeth Darllen Dros Gymru.



Darllenodd tîm bl 3 a 4 (uchod) lyfrau Cyfres Maes y Mes gan Nia Gruffydd; **Brwynwen a'r aderyn anferth; Rhoswen a'r Eira** a mwynhau trafod y cymeriadau a'r themâu hudol. Pleser o'r mwyaf oedd chwerthin wrth wyllo'r plant yn actio drama gan Ben Jones wedi selio ar lyfr Meleri Wyn James **Na, Nell! Wps!**

Darllenodd tîm bl 5 a 6 (isod) lyfrau Cyfres **Dosbarth Miss Prydderch** gan Mererid Hopwood. Trafodwyd antur y cymeriadau a'r themâu hudol. Dysgodd y plant am hanes Cymru, gan fwynhau trip addysgol i arddangosfa Sain Ffagan ar ôl darllen **Henriet y Syffrajed** gan Angharad Tomos. Roedd egni'r plant wrth actio golygfeydd y Welsh Not yn y ddrama gan Ben Jones wedi'i selio ar lyfr Myrddin ap Dafydd **Pren a Chansen** yn ysgytwol.



Profiadau gwyh. Diolch a da iawn i'r plant am eu gwaith caled a'u hymroddiad.

Merched y Wawr a Gwenynen Gwent

Cawsom fis Medi bendigedig o ran y tywydd - ac yna daeth y glaw ac ymweliad hirddisgwyledig Merched y Wawr Cwm Rhymni â gerddi godidog Llanofar. Mae Elizabeth Murray, perchennog y plas ar hyn o bryd, yn arddwreg o fri, ac yn tyfu pob math o blanhigion anghyffredin a hardd. Dim ond ddwywaith y flwyddyn, serch hynny, yr agorir y gerddi i'r cyhoedd, ym mis Mawrth a mis Medi.



*Merched y Wawr Cwm Rhymni
wrth golomendy Llanofar*

Mae Mrs Murray hefyd yn ddisgynnydd uniongyrchol i'r enwog Augusta Hall, Arglwyddes Llanofar, sydd yn fwy adnabyddus i ni'r Cymry fel "Gwenynen Gwent". Yr Arglwyddes a'i gŵr, Syr Benjamin Hall, a gododd y plas presennol, ar safle tŷ hynafol. Nhw hefyd oedd yn gyfrifol am godi nifer o dai'r pentref cyfagos. Llanofar yw enw'r pentref heddiw, ond gogyfer â chlwydi urddasol y plas mae'r hen lythyrdy, ac fe welwch yno enw gwreiddiol y lle - Rhyd-y-meirch. O graffu ar yr arwydd fe welwch hefyd lun o'r Fari Lwyd.

Roedd Gwenynen Gwent yn rhannu llawer o ddi-ddordebau a gwerthoedd Merched y Wawr - roedd yn frwd iawn dros bob agwedd o ddiwylliant Cymru - ei hiaith, ei gwisgoedd traddodiadol, ei cherddoriaeth a'i

Gyda'i chefnogaeth hi y sefydlwyd Cymreigyddion y Fenni, ac y cynhaliwyd cyfres o eisteddfodau llwyddiannus yn y dref. Dewisodd yr enw "Gwenynen Gwent" pan gafodd ei hurddo i'r Orsedd - enw sy'n adlewyrchu ei hegri a'i dyfalbarhad.

Ond nid Cymraes oedd Arglwyddes Llanofar. Daeth i Gymru am y tro cyntaf pan oedd yn blentyn bach. Prynodd ei thad, diwydiannwr cyfoethog o Swydd Nottingham stad Llanofar, a symudodd i fyw yn hen blasty Tŷ Uchaf. Mae rhannau o'r adeilad hwnnw i'w gweld heddiw, ynghyd â cholomendy hynafol. Yn ôl yr hanes, cwmpodd Augusta mewn cariad â diwylliant ac iaith y Cymry yn ei phlentyndod.

Hyfryd oedd crwydro'r gerddi godidog - rhwng y cawodydd - a thrafod harddwch a hanes y lle yn y Gymraeg, gan gofio fel y byddai'r Arglwyddes ei hun wedi ymfalchïo yn hynny. Cawsom gyfle i ddarganfod mwy amdani hefyd wrth ymweld ag arddangosfa Cymdeithas Gwenynen Gwent a siarad gydag aelodau'r Gymdeithas honno, sy'n ceisio cadw cof yr Arglwyddes yn fyw yn eu bro.

Ar ddiwedd yr ymweliad aethom draw i Eglwys Sant Bartholomeus, man claddu Augusta Hall a'i gŵr Benjamin, a nifer o aelodau eraill eu teulu. Mae beddrod mawreddog yr Arglwydd a'r Arglwyddes yn dominyddu'r fynwent, ac wedi ei amgylchynu â ffens uchel. Ond mae clwyd fach ar yr ochr ac mae modd mynd yn agos at y beddrod a sylwi ar gyfoeth yr addurniadau ar y beddrod. Mae'r cyfan yn gwbl ddwyieithog - mae pob adnod ac arysgrif yn y Gymraeg ac yn Saesneg. Gerllaw - ond tu allan i'r ffens - mae rhai o feddi gweision a morynion y plas, a beddfaen telynor teulu Plas Llanofar hefyd.

I goroni'r cyfan, cawsom fynd mewn i'r eglwys, lle byddai'r Wenynen ei hun wedi addoli. Byddai hi a'i theulu yn eistedd yng nghefn yr eglwys, gyda'u gweision a'u tenantiaid yn y corau o'u blaen. Mae enwau'r ffermydd wedi eu cerfio i gefn eu corau. Er mor frwd oedd Gwenynen Gwent dros arferion Cymru, nid oedd yn Anghydfurwreg o unrhyw fath yn y byd, a chas ganddi radicaliaeth - ond stori wahanol yw honno!

Dr Elin Jones

Ail Gynnig ar Ddysgu'r Gymraeg



Stephen yn derbyn tystysgrif gan Nia Parry, wedi iddo basio ei arholiad Dysgu Cymraeg Canolradd.

Mae un o ddarlennwyr “Cwmni” sy’n gyn ohebydd rygbi wedi treulio'r rhan fwyaf o'r ddwy flynedd ddiwethaf yn dysgu Cymraeg, ar ôl iddo bron â cholli'r iaith tua deugain mlynedd yn ôl.

Mae Stephen Bale, a symudodd o Taunton, Gwlad yr Haf, i Fagwyr yn 2016, yn dysgu Cymraeg gyda [Dysgu Cymraeg Gwent](#), sy’n cael ei weinyddu gan Goleg Gwent ar ran y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

Cwblhaodd Stephen gwrs i ddechreuwyr yn y 1970au yng Nghastell Nedd, sef ei dref enedigol, ond wrth i'w yrfa ddatblygu a'i waith hawlio blaenoriaeth, doedd ganddo ddim llawer o amser i barhau i ddysgu'r iaith.

Dros y blynyddoedd, mae Stephen wedi gweithio gyda sawl papur newydd gan gynnwys y Neath Guardian, South Wales Evening Post, South Wales Argus a'r Western Mail. Yn fwy diweddar, bu'n teithio dramor gyda'i waith ar yr Independent, The Express a'r Sunday Times, yn gohebu ar dros 500 o gemau rhyngwladol ac wyth taith gyda'r Llewod.

Ers ymddeol, mae Stephen wedi bod yn benderfynol o ennill yn ôl yr amser a gollwyd, ac erbyn hyn mae'n mynychu cwrs Dysgu Cymraeg wythnosol ar gyfer dysgwyr profiadol yn Nghil-y-Coed gyda'r tiwtor, Helen Young.

Eleni, mae Stephen wedi ennill y wobr genedlaethol i ddysgwyr profiadol, gwobr sy'n cael ei rhoi gan Ferched y Wawr, ac i Helen y mae'r diolch am hynny;

“Mi wnes i ysgrifennu traethawd yn dwyn y teitl 'Darganfod yr iaith Gymraeg', traethawd y gwnaeth Helen ei anfon i'r gystadleuaeth. Mae'r traethawd yn canolbwyntio ar y siom a deimlais o golli'r iaith flynyddoedd yn ôl, a sut y gwnaeth hynny fy ysgogi i wella ac i ddod yn siaradwr rhugl.”

Mae Stephen yn manteisio ar bob cyfle i ddefnyddio ei Gymraeg yn lleol. Mae'n mynychu gweithgareddau Cymraeg ac mae'n ymweld â'r Ganolfan Gymraeg newydd, Tŷ Croeso yng Nghas-gwent yn aml. Mae cymryd rhan yn y cynllun '[Siarad](#)' wedi chwarae rhan allweddol yn ei ddatblygiad. Dyma'r cynllun gwirfoddol sy'n dod â siaradwyr Cymraeg rhugl a dysgwyr at ei gilydd, i gyfarfod am ddeg awr, i sgwrsio yn Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth;

“Mae fy mhartner “Siarad”, Ben Jones wedi bod yn amyneddgar iawn! Mae cael cwmni siaradwr rhugl mewn amgylchedd anffurfiol wedi bod o gryn gymorth ac wedi rhoi hwb aruthrol i fy hyder. Mae wedi fy narbwylio i beidio â bod yn swil, a heb ei gefnogaeth, byddai profi llwyddiant yn fy arholiad Cymraeg llafar diweddar wedi bod yn fwy o her.”

Ar ôl cwblhau'r cwrs ar gyfer siaradwyr profiadol, gobaith Stephen ydy parhau i ddysgu a gwella. Ond fel yr eglura, yr hyn sy'n bwysig ydy'r gallu i siarad yr iaith;

“Mae siarad yr iaith yn allweddol a dw i am barhau i ddefnyddio fy Nghymraeg mor aml ag y gallaf. Hyder yw'r peth anoddaf wrth ddysgu Cymraeg, hyder i roi cynnig arni yn ogystal â gwneud camgymeriadau. Roedd colli'r Gymraeg yn un o fy nghamgymeriadau mwyaf erioed, ond fel y dengys fy mhrofiad i, dydy hi byth yn rhy hwyr i ddechrau dysgu!”

Er mwyn dod o hyd i gwrs neu am gyfleoedd i ymarfer eich Cymraeg, ewch [dysgucymraeg.cymru](#) neu rhwch gynnig ar ein [cyrisiau ar-lein](#) sy'n rhad ac am ddim.

Wythnos Dathlu Dysgu Cymraeg ar Radio Cymru



Dywedodd Rhuanedd Richards, Golygydd BBC Radio Cymru: "Pwrpas yr wythnos hon yw dathlu'r rheiny sy'n dysgu Cymraeg, ehangu'r arlwy sydd ar eu cyfer, a rhoi platfform i leisiau dysgwyr yr iaith.

"Rydym yn gwybod fod Radio Cymru yn adnodd pwysig i nifer o ddysgwyr, ac yn gallu rhoi mynediad iddynt i ddiwylliant Cymraeg ehangach. Dyna'n bendant yw profiad aelodau fy nheulu fy hun sy'n dysgu'r Gymraeg

Mae BBC Radio Cymru yn dathlu dysgu Cymraeg eleni gyda wythnos o arlwy yn ystod mis Hydref. Bydd yr wythnos yn rhoi platfform unigryw i ddysgwyr Cymraeg ac yn dathlu eu cyfraniad i'r byd Cymraeg.

Bwriad yr wythnos yw rhoi llwyfan i leisiau dysgwyr yn ogystal â darparu mwy o gynnwys defnyddiol i'r rheiny sy'n dysgu'r iaith.

Ymysg yr arlwy fe fydd:

- Bwletin newyddion ychwanegol bob nos am 8pm ar gyfer dysgwyr.
- Cyfle i griw o ddysgwyr gymryd yr awenau bob prynhawn ar rhaglen Ifan Evans.
- Golygydd gwadd ar gyfer y Post Cyntaf.
- Podlediad ar gyfer dysgwyr gyda'r cyflwynydd Wynne Evans yn darllen o'i hunangofiant.
- Penodau newydd o Hanes yr Iaith gan y prifardd Ifor ap Glyn.

Bydd yr wythnos yn cael ei chynnal ganol mis Hydref, i gyd-fynd â Diwrnod Shwmae Su'mae, ac mae'n ffrwyth partneriaeth rhwng BBC Radio Cymru a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

"Mae BBC Radio Cymru yn gartref i bawb sydd am wrando ar raglenni a cherddoriaeth yn y Gymraeg, felly rydym yn falch iawn ein bod yn gallu dathlu dysgwyr Cymraeg gyda'r wythnos arbennig yma."

Dywedodd Efa Gruffudd Jones, Prif Weithredwr y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol:

"Mae creu cyfleoedd i ddysgwyr ymarfer eu Cymraeg yn rhan bwysig o waith y Ganolfan a 'dyn ni'n gwybod bod ein dysgwyr yn mwynhau defnyddio'u Cymraeg wrth wrando ar Radio Cymru. Bydd yr wythnos arbennig hon hefyd yn gyfle i ddathlu brwdfrydedd ac ymrwymiad y rheiny sy'n dysgu'r iaith.

"Mae'r Ganolfan a Radio Cymru wedi cydweithio yn barod i ddarparu adnoddau i ddysgwyr, sydd ar gael trwy ein gwefan, dysgucymraeg.cymru, a 'dyn ni'n falch iawn o adeiladu ar y bartneriaeth honno trwy gefnogi'r wythnos ddathlu Dysgu Cymraeg."



Penwythnos Dysgwyr Maldwyn

Canolfan Nant Hirwen, Moelfre, Croesoswallt, Powys
Dydd Gwener 25 – Dydd Sul 27ain o Hydref
Cwrs Cymraeg i ddysgwyr canolradd i uwch!
Gweithgareddau diddorol i ymarfer eich
Cymraeg!

£90 i bobl mewn gwaith

£75 i bobl ddi-waith

Am ddim i Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches

Mount Stuart



Am nad oedd rhifyn o “Cwmni” i’w baratoi ar gyfer mis Awst achubodd y Golygydd a’r Golygydd Llundain ar y cyfle i fwrw gwyliau yn Yr Alban, i Ynys Bute(maen nhw’n briod â’i gilydd, gyda llaw!)

Mae hynt teulu’r Bute o ddiddordeb arbennig i ni yn ardal y papur bro fel i eraill yn Ne-Ddwyrain Cymru. Y teulu hwn piau Ynys Bute, darn sylweddol o dir oddi ar yr arfordir ger dinas Glasgow. Mae hon yn ardal o olygfeydd trawiadol, lle mae aberoedd dwfn, “*lochs*”, sydd hefyd o bwys militaraidd. Ychydig i’r gogledd mae Holy Loch, lle cedwir y llong danfor Trident, un sydd i’w hadnewyddu ar gost o £300 biliwn er na chafodd ei defnyddio o gwbl yn ystod y 30 mlynedd y bu’n nythu yno. A phwy fydd am gynnig lloches i’r fath fwystfil wedi i’r Alban fynnu ei hannibyniaeth?

Dywedir mai Trydydd Ardalydd Bute oedd y dyn cyfoethocaf yn y byd ddiwedd yr C19eg tan ei farwolaeth yn 1903. Fe oedd yn gyfrifol am draean o gynnyrch domestig Prydain (GDP) ar y pryd. Roedd hefyd yn gysylltiedig â’r weithred o arwyddo’r siec gyntaf erioed yn y byd a oedd yn werth miliwn o bunnau. Gweithred a gyflawnwyd yn y Gyfnewidfa Lo ym Mae Caerdydd.

Cawsom ein tywys o gwmpas y tŷ yn rhan o grŵp oedd ar drip o Dde Cymru. Cafodd ein tywysydd wybod ein bod ni hefyd yn gyfarwydd iawn â hynt a helynt teulu’r Bute, a hynny o safbwynt y glowyr a’u teuluoedd. Ond nid ffrwyth eu gweithredoedd yn y meysydd glo oedd unig ffynhonnell y cyfoeth. Na, roedd y teulu yn gyfoethog cyn y cyfnod hwnnw, yn fwyaf arbennig wrth uno teuluoedd cefnog trwy briodas o genhedlaeth i genhedlaeth. Dysgasom ninnau, wrth edrych ar bortreadau anferth o aelodau’r teulu am enwau yr ydym wedi dod yn gyfarwydd â nhw megis, Creighton, Ninian, Stuart ac ati.

Gall teulu’r Bute olrhain eu hachau mor bell yn ôl â’r C10fed gan mai un o’u rhagflaenwyr oedd y Santes Margaret, priod y Brenin Malcolm a gafodd ei chanoneiddio am ei duwioldeb (*piety*). Ai hi yw’r Santes Margaret a goffeir mewn stryd yn Lôn y Llyn, Caerffili? Tybed? Mae’r teulu hefyd yn arddel Robert the Bruce ymhlith eu cyndeidiau. Cofier hefyd mai Mary Stuart ac nid Mary Tudor oedd Mary Queen of Scots.(1542-1587)

Codwyd Mount Stuart yn 1880 a difyr nodi i’r Iarll yn ei ieuenctid orfod rhedeg i ffwrdd gyda’i gariad am fod y teulu’n gwrthwynebu eu priodas. Ond daeth maddeuant iddynt ac aethant ymlaen i fagu deg o blant! Roedd y Trydydd Iarll yn ŵr diwylliedig a feddai ar ddysgeidiaeth am fyd natur, yn fwyaf enwedig ei wybodaeth am blanhigion. Rhannai ei wraig ei ddiddordeb yn y maes hwn ac felly dyw hi ddim yn syndod mai nhw a aeth ati i sefydlu’r Gerddi Botaneg yn Kew ger Llundain. Ceir tystiolaeth o ysgolheictod y Trydydd Ardalydd yn addurniadau’r castell. Roedd yn wybodus mewn sêr-ddewiniaeth a mytholeg Roegaidd. Medrai un ar hugain o ieithoedd gan gynnwys y Gymraeg a dywedir iddo fynnu bod staff castell Caerdydd yn arfer yr iaith pan yn siarad â’i blant.

Un o’r cyndeidiau, John Stuart, Iarll Bute, oedd y Sgotyn cyntaf i wasanaethu’n Brif Weinidog ar Brydain yn 1762-63. Derbyniodd yr anrhydedd fel ffafr am ei gyfeillgarwch â Sior III ac adnabwyd ef fel ‘Jac the Boot’.

Mae Mount Stuart yn dyddio nôl i amser yr Ardalydd Cyntaf. Ond ei olynnydd y Trydydd Ardalydd ddatblygodd ein diwydiant glo. Ef a gododd Mount Stuart yn gogolofn i foethusrwydd sydd y tu hwnt i ddychymyg dyn. Hwn oedd un o’r tai cyntaf i gael ei drydaneiddio. Roedd ganddo, hefyd, wres canolog, pwll nofio dan do ac ystafelloedd *en suite* wrth y prif ystafelloedd gwely.

Wedi ei farwolaeth aethpwyd â chalon y Trydydd Ardalydd i’w chladdu ar Fynydd yr Olewydd. Hyn, efallai, yn fwy o brawf o gyfoeth nag yw e o argyhoeddiad crefyddol.

Efallai fod yr holl gyfoeth yn fwy addas mewn dinasoedd lle gall ennyn edmygedd boneddigion eraill. Na, ddim o gwbl. Mae Mount Stuart ar ynys anghysbell, a hyd yn oed heddiw cymer 40 munud ar y fferi o dir mawr Argyll. Mae’r tŷ yn sefyll ar ei ben ei hun ochr draw i’r ynys o’r unig dref, sef Rothesay. Lle preifat yw Mount Stuart sy’n adlewyrchu chwaeth a diddordeb un teulu yn gyfan gwbl er mwyn eu pleser nhw eu hunain. Cyfoeth yn wir.

Mary Jones

Colofn Dafydd Islwyn



Tra'n eistedd yn y bws wrth oleuadau Pengam y dydd o'r blaen, cofiais am dri dyddiad. 12fed o Orffennaf eleni bu farw'r newyddiadurwr Gwilym Owen, Bangor. Cofiais iddo ddweud yn ei hunangofiant am George Fisher, "..... clamp o ddyn byrbwyll tymherus. Hwntw go iawn o'r cymoedd, oedd wedi mynd ati i ddysgu'r

Gymraeg. Mathemateg fel y deudis i oedd ei bwnc ond y ddrama a'r theatr oedd ei fyd o." Bu Gwilym Owen yn ddisgybl yn Ysgol Ramadeg Llangefni ac yn yr ail bennod mae'n trafod ei gyfnod yno a'r athrawon fu'n ei ddysgu, yn eu mhysg George Fisher o Fargod ac Ysgol Pengam.

Ar y 29ain o Ebrill eleni agorodd yr ysgol ar ôl gwyliau'r Pasg a chysgod trychineb dydd Gwener ola'r tymor blaenorol drosti. Bu farw un o'i disgyblion ym Mharc Ystrad Mynach, Callum Price, tair ar ddeg oed.

Cofiais amdano,

Mae ei gadair yn wag
yn yr ystafell gerdd;
cadair y mwrddrwg,

A'r gwyliau ar ddechrau
ganol Ebrill
a chân y gwanwyn
yn sirioli'r parc
yn Ystrad Mynach
aethost yno.

A'th glust yn fain
clywaist islaïs
dy gyfeillion chwareus;
nodau aflafar eu cymhelliad
iti wrando
ar dân y cyffur.

Yng nghysgod y goeden
distawodd nodau agoriadol
unawd dy fywyd.

Ar y 4ydd o Fawrth 1914 dadorchuddiwyd plac yn yr ysgol i gofio un o gyn-ddisgyblion disglair yr ysgol, Dr Humphrey Owen Jones, M.A., D.Sc., F.R.S.. Fe laddwyd ef a'i wraig wrth dreulio eu mis mêl yn dringo yn yr Alpau yn y Swistir ar y 15fed o Awst 1912. Ef oedd prif swyddog y bechgyn yn yr ysgol yn 1893 ac 1894. Dadorchuddiwyd y plac gan J. H. Davies M.A. Cofrestrydd Prifysgol Cymru, Aberystwyth ar y pryd.

Dwyn i go' fywyd a gwaith Dr H. O. Jones a wnaeth Thomas Jones, M.A., Rhymni a oedd yn Ysgrifennydd Comisiwn Cenedlaethol Yswiriant Iechyd Cymru. Derbyniwyd J. H. Davies a Thomas Jones yn ddisgyblion i Ysgol Lewis, Pengam yn 1882. Bu J. H. Davies yno tan 1884 a Thomas Jones tan y flwyddyn ddilynol.

Ar y 7fed o Dachwedd 1919 cynhaliwyd cyfweiliad am swydd prifathro un o golegau Prifysgol Cymru. Cyfwelwyd Yr Athro J. E. Lloyd, yr hanesydd; J. H. Davies a Thomas Jones. Ai dyma'r unig dro i ddau gyn-ddisgybl o'r un flwyddyn o'r un ysgol gael eu cyfweild am swydd prifathro un o brifysgolion Cymru? Trwy ddirgel ffyrdd, J. H. Davies apwyntiwyd. Dywedodd Thomas Jones yn ei gyfrol *'Rhymney Memories'*, *"Davies beat me easily and even more easily the third candidate, a greater scholar than either of us."*

Sôn am gyfrolau Thomas Jones, yn ei gyfrol *'Leeks and Daffodils'* 1942, cyhoeddwyd ei werthfawrogiad o fywyd a gwaith Humphrey Owen Jones, a oedd yn ddisgybl ym Mhengan o 1890 - 94. Cyn-ddisgybl arall a gyhoeddodd lyfr ydy Ewart Smith, brodor o'r Coed Duon. Ef ydy awdur *'Lewis School, Pengam - A History, Founded 1729'* a gyhoeddwyd yn 2013.

Yn 1929 y cyhoeddwyd *'The History of Lewis School, Pengam'* gan Arthur Wright B.Sc. (1876-1953). Bu'r brodor o Dess, Swydd Norfolk, yn athro Cemeg yn yr ysgol o 1904 - 1944. Gorffennodd ei yrfa yn uwch athro yn yr ysgol.

Fe ddaeth yr hydref, y tymor pan fydd dail y coed yn newid eu lliw ac yna'n syrthio gan adael y coed yn llwm. Mae rhai pobl yn hoffi'r hydref o achos lliwiau hyfryd y dail ond pobl eraill yn casau'r tymor achos bod y gaeaf ar ei ffordd. Beth yw eich barn chi? Dyma gerdd boblogaidd gan T. Llew Jones, yn disgrifio'r gwynt yn gwahodd y dail lliwgar i ddawnsio. Mae'r olygfa yn bert ond erbyn y bore wedyn, does dim byd ar y stryd ond dail crin.

Dawns y Dail

Fe waeddodd gwynt yr hydref,
Mae'n waeddw'r heb ei ail,
'Dewch i sgwâr y pentre i gyd
I weled dawns y dail.

'Rwy'n mynd i alw'r dawnsywyr
O'r perthi ac o'r coed,
A byddant yma cyn bo hir
Yn dawnsio ar ysgafn droed.

I ffwrdd â gwynt yr hydref
Â'i swn fel taran gref,
A chyn bo hir fe ddaeth yn ôl
A'r dawnsywyr gydag ef.

Oll yn eu gwisgoedd lliwgar,
O'r glyn a choed yr ardd,
Rhaid mewn melyn, gwyrdd a choch,
A rhai mewn porffor hardd.

A dyna'r ddawns yn cychwyn,
O! dyna ddawnsio tlws,
A chlywais innau siffrwd traed
Wrth folltio a chloi'r drws.

Ond pan ddihunais heddiw
Roedd pibau'r gwynt yn fud,
A'r dawnsywyr yn eu gwisgoedd lliw
Yn farw ar gwr y stryd.



syrthio : fall llwm : bare ar ei ffordd : on its way gwahodd : invite dail crin : withered leaves
heb ei ail : better than any other ysgafn droed : light footed taran gref : strong thunder
cychwyn : begin siffrwd : rustling pibau : pipes yn fud : dumb ar gwr y stryd : at the edge of the street

Atebion Posau'r Plant



Cyhoeddi cyfrol newydd Eurig Salisbury, *Ifor Bach*.

Mae gwasg Gomer ar fin cyhoeddi cyfrol newydd sbon gan Eurig Salisbury, awdur *Cai*, a gipiodd y Fedal Ryddiaith yn 2016.

Mae'n bosib taw'r clwb nos enwog, neu'r ysgol a enwir ar ei ôl, yw'r arwyddion pennaf fod y gŵr hwn, Ifor Bach, o bwys hanesyddol i ni'r Cymry. Ond pwy sy'n gwybod mwy na hynny? Pwy yn union oedd Ifor ap Meurig, a beth oedd ei gamp fawr?


Ffrwyth dychymyg yr awdur ei hun yw'r stori hon ar y cyfan, ond mae'r cwbl wedi'i seilio ar yr ychydig friwsion o wybodaeth hanesyddol a geir mewn llawysgrifau am y gŵr byr ei faint, ond mawr ei gymeriad, oedd yn un o arglwyddi Cymru yn y 12fed ganrif.

"Ers darllen am Ifor Bach pan o'n i'n blentyn, mae fy niddordeb ynddo fel ffigwr hanesyddol, ond hefyd fel dyn o gig a gwaed, wedi parhau. Arwr anturus yn unig oedd e imi flynyddoedd yn ôl, a does dim gwadu fod ei gamp enwog yng nghastell Caerdydd (rhaid darllen y gyfrol i ddod i wybod am hyn!) yn rhyfeddol. Ond bellach, a minnau'n dad ers tair blynedd, mae'r un mor ddiddorol – os nad yn fwy felly – meddwl amdano fel dyn go iawn, fel cyfaill, fel gŵr ac fel tad," esbonia Eurig.

"Roedd cyfnod Ifor yn un gwaedlyd iawn yn hanes Cymru, ac mae hynny'n cael ei adlewyrchu yn y nofel, ond dwi'n gobeithio fod ing, cariad a hiwmor cynnil ynddi hefyd. Dwi'n sicr fod darluniau Jac Jones yn rhoi blas arbennig o'r cyfnod, ac mae wedi bod yn ddifrif gweld fy syniadau'n cael eu dehongli'n weledol ganddo

Mae'r darlunydd arobryn Jac Jones wedi creu'r clawr trawiadol a deg o ddelweddau du a gwyn yn ei arddull nodedig ac unigryw, sy'n plethu drwy'r gyfrol.

"Doedd dim angen dychymyg hefo geiriau Eurig, jest dwyn y geiriau a gadael iddyn nhw rhedeg i siâp perthnasol. Braint oedd gweithio ar y gyfrol hon," medd Jac Jones.



Dywed Meirion Davies, Pennaeth Cyhoeddi Gwasg Gomer, "Y darllenwyr targed yw oedolion ifanc, ond fe all oedolion o bob oed fwynhau darllen am hanes y cymeriad Cymreig eiconig hwn. Mae darluniau cywrain Jac Jones yn ychwanegu at naws y stori ac yn sbarduno'r dychymyg. Bydd hon yn glasur, ac mae'n haeddu ei lle fel llyfr o bwys i ni heddiw."

"Dyma nofel anturus mewn iaith gyfoethog a fydd yn cyflwyno cenhedlaeth newydd o Gymry i un o'r straeon difyrffaf yn ein hanes." – Ifan Morgan Jones.



Am yr awdur:

Mae Eurig yn ddarlithydd mewn ysgrifennu creadigol yn Adran y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd, Prifysgol Aberystwyth. Enillodd y Fedal Ryddiaith a'i nofel gyntaf, *Cai*, yn 2016, a bu'n Fardd Plant Cymru 2011–13. Mae'n byw yn Aberystwyth gyda'i wraig Rhiannon a'u mab Llew.

Am y darlunydd:

Dechreuodd Jac Jones ei yrfa fel Dylunydd Graffeg yn 1974, wrth greu cloriau recordiau Sain, Poster i Theatr Cymru a Theatr Gwynedd. Mae wedi ennill amryw o wobrau nodedig fel gwobrau Tir na N-Og dair gwaith a Thlws Mary Vaughan Jones. Mae wedi creu darluniau i tua 400 o lyfrau yn cynnwys pecynnau i hybu darllen.



Mae *Ifor Bach* ar gael nawr ar-lein ac mewn siopau llyfrau am bris £8.99.

Am fwy o wybodaeth am *Ifor Bach* neu i drefnu cyfweiliad ag Eurig Salisbury, cysylltwch â Catrin Wyn Lewis ar: catwjo@yahoo.co.uk neu ffoniwch swyddfa Gomer ar: 01267 221400



- ☐ Hydref 2 - Eglwysilan - CF83 4JG
Cwrdd ger tafarn Rose and Crown
- ☐ Hydref 9 - Llancaiach Fawr - CF46 6ER
Cwrdd yn y maes parcio
- ☐ Hydref 16 - Castell Cyfarthfa - CF47 8NN
Cwrdd yn y maes parcio
- ☐ Hydref 23 - Cyfarfod Cynllunio
Swyddfa Menter Caerffili Suite 1,
Parc St Margaret's, Aberbargod, CF81 9FW

*Bydd angen gwisgo esgidiau cerdded addas ar gyfer y teithiau.



Tafarn Maesycwmmer Inn

Ymunwch a ni i wyllo gemau rygbi Cymru yng nghwpan y byd.
Bydd y dafarn ar agor 30 munud cyn bob gem.
Rôl brecwast yn ystod hanner amser.

Cymru v Fiji - Hydref 9 @10:45am

Cymru v Wrwgwai - Hydref 13 @9:15am

Cysylltwch i rhoi gwybod eich bod am ddod
bethanjones@mentercaerffili.cymru 01443820913



Theatr Ieuenctid Caerffili

Cwrdd â phobl ifanc creadigol, dysgu sgiliau newydd, darganfyddwch am gyfleoedd cyffrous, perfformio a chael hwyl!

Addas ar gyfer pobl ifanc 13-19 oed



Sesiynau bob nos Fawrth
5.30-7pm, Sefydliad yr Glowyr Coed Duon

Sesiwn cyntaf am ddim ac wedyn mae'n £3.50 yr wythnos



Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â ni yn
artsdevelopment@caerphilly.gov.uk



Dydd Sadwrn

Tachwedd 16

£15

Amseroedd codi o orsafoedd bws:

Caerffili 7:30

Ystrad Mynach 7:45

Coed Duon 8:00



Rhaid i chi bwcio o flaen llaw cyn Hydref 25



Clwb Darllen Cwmni

Llawr Cyntaf
Llyfrgell Newydd Caerffili

2:00 o'r gloch

Hydref 7fed: Llyfr Glas Nebo
Gan Manon Steffan Ros
Tachwedd 4ydd: Ysbryd yr Oes
Mari Williams
Rhagyr 2ail: Promenâd y Gwenoliaid
Gareth W. Williams
penneyje961@gmail.com

Clwb Darllen Dysgwyr Caerffili

Cyfarfod nesa:
Dydd Gwener 11 o Hydref

**"Cawl" a Straeon Eraill
gan awduron amrywiol**
2 o'r gloch yn Llyfrgell Caerffili

Cofiwch hefyd am:

Y bore coffi ym Medwas, Caffi'r Graig
bob dydd Llun o 10.30 ymlaen
A'r bore coffi yn y Malcolm Uphill
(Wetherspoons), Caerffili bob dydd
Mawrth o 10 o'r gloch ymlaen
penneyje961@gmail.com
Croeso i Bawb



Menter Iaith Sir Caerffili
PARTI
CALAN GAEAF
I BLANT CYNRADD

CERFIO PWMPEN
(DEWCH A PHWMPEN EICH HUN)
CREFFT A GEMAU

DYDD IAU
HYDREF 31
12:30-2:00PM

GWISG FFANS!
BWYD PARTI
A MWY ...

@ CWM RHYMNI
Y GWYNDY,
CAERFFILI

RHAID I RHINI AROS
RHAID COFRESTRU O FLAEN LLAW

01443820913 bethanjones@mentercaerffili.cymru

Menter Iaith Sir Caerffili
MENTRAU IAITH
CYMRAG



Aethoch chi drwy addysg Gymraeg a bellach wedi colli hyder neu golli gafael ar yr iaith? Wyt ti eisiau cymorth am ddim i gynyddu dy ddefnydd a hyder i'w ddefnyddio eto?

Cynyddu dy ddefnydd gyda dy deulu, o fewn y gweithle, yn gymdeithasol neu am unrhyw reswm personol arall. Ar y prosiect Hyder byddwn yn cynnig cymorth un wrth un i greu cynllun personol gyda chamau gweithredu a heriau wedi'u greu gennych chi.

Cysylltwch am fwy o wybodaeth -

bethanjones@mentercaerffili.cymru 01443820913



Menter Iaith Sir Caerffili

Menter Bro Dinefwr





Cysylltwch â ni ar FACEBOOK

Teipiwch Cwmni" a dod o hyd
i logo'r papur



*Dyma gyfle i chi fynegi barn..... cyfrannu
darn o newyddion..... dweud jôc,,,,,,
neuawgrymu sut allwn ni wella'r papur !!!*

Beth amdani?

Boreau Coffi



Mae boreau coffi yn cael eu cynnal yn wythnosol
mewn lleoliadau gwahanol ar draws Sir Caerffili.

Bore Coffi Caffi'r Graig Bedwas Dydd Llun (10:30-11:30)

Bore Coffi Wetherspoon's Caerffili Dydd Mawrth (10:00-11:00)

Bore Coffi Wetherspoon's Coed Duon Dydd Iau (10:30-11:30)

Bore Coffi Capel DanvGraig. Risca Dydd Iau (10:30-11:30)

Merched y Wawr Cwm Rhymni



Nos Fercher, 16eg o Hydref

7:30yh

Bethel, Caerffili

O ffrogiau'r Frenhines i glustogau mwdlyd
yr anialwch –

Branwen Roberts

Arbenigyydd Cadwraeth Tecstilau
a weithiodd yn Hampton Court am
dros ddegawd.

Croesawir aelodau hen a newydd
a dysgwyr i'n plith.

Cysylltwch â gaynorw555@gmail.com

Hanes Cwm Ni

3/10/19 Dr Adrian Price


Hanes y Ddraig Goch

7/11/19 Gareth Thomas

Menywod lolo Morganwg: yr
ing, ecstasi a siom

9/1/20 Rhys Jones

Traddodiadau Cymreig



Clwb Rygbi Penallta

Ystrad Mynach CF82 7EP

7:00yh

Am ragor o fanylion:

helen.young@coleggwent.ac.uk

01495 333702

Eisiau dysgu mwy am
hanes Cymru? Dewch i
wrando. Croeso i bawb.

Addas ar gyfer siaradwyr
CANOLRADD / UWCH /
HYFEDREDD / RHUGL



**Cwrw da Cymraeg a
Gwasanaeth
Cymraeg**




**Uned B27 Ystâd Ddiwydiannol
Trefforest CF375YB**

Ar agor dydd Gwener cynta'r mis
09:00 – 17:00.

#Lolffest 6 ar Ebrill 6ed a'r 7fed
(12:00 – 01:00)

www.twtlol.com



Eisteddfod y Cymoedd

Ysgol Gyfun Cwm Rhymni
Campws y Gwyndy, Caerffili

18fed o Hydref 2019

i gychwyn am 4:00

**Llywydd Anrhydeddus
Y Parch. Ddr R.Alun Evans**

Dyddiad cau i gofrestru er mwyn cystadlu a danfon y
gwaith Llenyddol a Ffotograffiaeth

Dydd Llun 7^{fed} o Hydref 2019

RHAID COFRESTRU

AR-LEIN

www.eisteddfodycymoedd.cymru